OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 Rhif 862 (Cy. 169)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Aelodaeth a Phenodi) (Cymru) (Diwygio) 2018

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *17 Gorffennaf 2018* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *19 Gorffennaf 2018* |
| *Yn dod i rym - -* | *9 Awst 2018* |

Mae Gweinidogion Cymru drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 2(2) a 47(1) o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014(**1**) a chan baragraff 4 o Atodlen 1 iddi, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

### Enwi a chychwyn

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Aelodaeth a Phenodi) (Cymru) (Diwygio) 2018.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 9 Awst 2018.

### Diwygio

**2.** Mae Atodlen 2 i Reoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Aelodaeth a Phenodi) (Cymru) 2014(**2**) wedi ei diwygio fel a ganlyn—

(a) yn Rhan 1—

(i) yn lle paragraff 1 rhodder—

"**1.** Yr Undeb Addysg Cenedlaethol."; a

(ii) hepgorer paragraff 7; a

(b) yn Rhan 2, ar ôl paragraff 27 mewnosoder—

"**28.** Council for Wales of Voluntary Youth Services Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol(**3**).

**29.** Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid Cymru(**4**).

(**1**) 2014 dccc 5.
(**2**) O.S. 2014/2365 (Cy. 229).
(**3**) Rhif cwmni cofrestredig 05444248.
(**4**) Mae Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid Cymru yn cynnwys prif swyddog ieuenctid o bob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru. Mae'r corff yn ceisio darparu cyngor ar ddatblygu a chyflenwi gwasanaethau ieuenctid yn strategol yng Nghymru.

**30.** National Training Federation for Wales Ltd(**5**).

**31.** Safonau Addysg Hyfforddiant Cymru(**6**)."

*Kirsty Williams*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, un o Weinidogion Cymru

17 Gorffennaf 2018

(**5**) Rhif cwmni cofrestredig 04594179.

(**6**) Mae Safonau Addysg Hyfforddiant Cymru yn gorff sy'n ceisio sicrhau bod rhaglenni hyfforddiant ar gyfer gweithwyr ieuenctid o ansawdd uchel, a'u bod yn berthnasol i anghenion cyflogwyr, gweithwyr ieuenctid eu hunain a'r bobl ifanc y maent yn gweithio gyda hwy.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae Rhan 2 o Ddeddf Addysg (Cymru) 2014 ("Deddf 2014") yn rhoi swyddogaethau i Gyngor y Gweithlu Addysg ("y Cyngor") mewn perthynas â phersonau y mae'n ofynnol iddynt gofrestru yn y gofrestr y mae'r Cyngor yn ei chynnal yn unol ag adran 9 o'r Ddeddf honno ("Personau Cofrestredig"). Mae'r categorïau o Bersonau Cofrestredig wedi eu nodi yn Nhabl 1 ym mharagraff 1 o Atodlen 2 i Ddeddf 2014.

Mae Atodlen 1 i Ddeddf 2014 yn darparu y bydd gan y Cyngor 14 o aelodau a benodir gan Weinidogion Cymru. Rhaid i saith o'r aelodau hynny gael eu penodi o blith enwebeion sefydliadau a nodir mewn Rheoliadau ("Cyrff Enwebu"). Mae'r rhestr o'r Cyrff Enwebu wedi ei nodi yn Atodlen 2 i Reoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Aelodaeth a Phenodi) (Cymru) 2014 ("Rheoliadau 2014").

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rhan 1 o Atodlen 2 i Reoliadau 2014 er mwyn hepgor paragraff 1 (y cofnod ar gyfer Undeb Cenedlaethol yr Athrawon (Cymru)) a pharagraff 7 (y cofnod ar gyfer Cymdeithas yr Athrawon a'r Darlithwyr). Mae'r Undebau hynny wedi uno bellach i greu undeb newydd sef yr Undeb Addysg Cenedlaethol. Felly, er mwyn adlewyrchu'r broses uno honno mae'r Undeb Addysg Cenedlaethol wedi ei ychwanegu at y rhestr o'r cyrff a nodir yn Rhan 1 o Atodlen 2 i Reoliadau 2014 (rheoliad 2(a)).

Diwygiwyd y categorïau o Bersonau Cofrestredig gan Orchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Cofrestru Gweithwyr Ieuenctid, Gweithwyr Cymorth Ieuenctid ac Ymarferwyr Dysgu Seiliedig ar Waith) 2016 er mwyn cynnwys gweithwyr ieuenctid, gweithwyr cymorth ieuenctid, ac ymarferwyr dysgu seiliedig ar waith ("Categorïau Newydd").

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Atodlen 2 i Reoliadau 2014 er mwyn caniatáu i gyrff sy'n cynrychioli'r Categorïau Newydd o Bersonau Cofrestredig enwebu personau i ddod yn aelodau o'r Cyngor. Yn unol â hynny mae'r Rheoliadau hyn yn ychwanegu at y rhestr o Gyrff Enwebu y canlynol (rheoliad 2(b))—

(a) Council for Wales of Voluntary Youth Services Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol;

(b) Grŵp Prif Swyddogion Ieuenctid Cymru;

(c) National Training Federation for Wales Ltd; a

(d) Safonau Addysg Hyfforddiant Cymru.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.